

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Health and Social Care Committee

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



William Powell AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

27 Mai 2015

Annwyl William,

Deiseb P-04-603, Helpu babanod 22 wythnos oed i oroesi.

Diolch am eich llythyr ynghylch y pwnc uchod, a ddaeth i law ar 23 Ebrill 2015.

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ("y Pwyllgor") yn ddiolchgar ichi am dynnu ei sylw at y mater hwn, ac i Emma Jones am gyflwyno deiseb ar y pwnc pwysig hwn. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ohebiaeth yr ydych wedi'i chael ar y mater, yn enwedig y llythyr diweddaraf gan y Gweinidog.

Yn ei lythyr, mae'r Gweinidog yn nodi bod penderfyniadau ynghylch a ddylid rhoi cymorth meddygol i fabanod a anwyd yn fyw ac sy'n anadlu cyn 23 wythnos yn anodd ac yn gymhleth, ac mai clinigwyr, mewn trafodaethau â rhieni, yw'r bobl orau i wneud y penderfyniadau hynny. Er eich bod yn cytuno â'r pwynt cyffredinol hwn, mae'ch llythyr yn nodi nad ydych o reidrwydd yn credu bod canllawiau cyfredol yn taro'r cydbwysedd cywir neu na ddylent fod yn destun gwaith craffu cyhoeddus.

Ystyriodd y Pwyllgor eich cais iddo gynnal ymchwiliad i'r ddeiseb hon yn ei gyfarfod ar 13 Mai 2015. Er bod aelodau'r pwyllgor yn cydnabod y pwnc pwysig a sensitif y mae'r ddeiseb yn ymwneud ag ef, byddwch yn ymwybodol bod gan y Pwyllgor lwyth gwaith deddfwriaethol trwm ar hyn o bryd. Yn anffodus, mae hyn yn golygu bod ei raglen yn debygol o fod yn llawn am ran

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6354

E-bost / Email: Seneddiechyd@Cynulliad.Cymru /
SeneddHealth@Assembly.Wales

Trydar / Twitter: [@seneddiechyd](https://twitter.com/seneddiechyd) / [@seneddhealth](https://twitter.com/seneddhealth)


Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

sylweddol o'r flwyddyn galendr hon ac ni fydd yn caniatáu'r amser sydd ei angen i ystyried y mater cymhleth hwn yn y modd y mae'n haeddu. Serch hyn, cytunodd y Pwyllgor i:

- geisio eglurhad ysgrifenedig gan y Prif Swyddog Meddygol am ei disgwiliadau o'r ffordd y mae ysbytai unigol yn dilyn canllawiau proffesiynol ar gyfer trin a gofalu am fabanod cynamserol dros ben; a
- ystyried ymateb y Prif Swyddog Meddygol, a dewisiadau ar gyfer craffu ar y pwnc hwn yn y dyfodol, pan fydd yn ystyried ei flaenraglen waith yn ddiweddarach eleni.

Mae copi o lythyr y Pwyllgor at y Prif Swyddog Meddygol ynghlwm er gwybodaeth ichi, a bydd yn rhannu ei hymateb ar ôl iddo ddod i law.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "David F. Rees." The signature is written in a cursive style with a period at the end.

David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol